Email: engagement@professionalstandards.org.uk
Website: www.professionalstandards.org.uk/

 **professional
standards
authority**
for Health and Social Care



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

SBRI Centre of Excellence Stand 42



The SBRI Centre of Excellence, funded by Welsh Government and hosted by Betsi Cadwaladr University Health Board, connects the NHS, local authorities, and industry to solve health and social care challenges. Through the Small Business Research Initiative (SBRI), the Centre supports innovators to develop, test, and scale solutions that improve services, outcomes, and value for citizens in Wales. From AI-enabled healthcare tools to circular economy projects, the Centre helps turn good ideas into real-world impact - driving economic growth, sustainability, and wellbeing through innovation.

Email: sbri.coe@wales.nhs.uk
Website: www.sbriwales.co.uk
X Handle: @SBRICOE

Skills for Health Stand 3



Founded in 2002, Skills for Health is a not-for-profit and the UK's Sector Skills Council for Health, bringing unrivalled expertise and insight into the workforce challenges facing healthcare organisations today.

For over two decades, we've worked in partnership with NHS organisations and the wider sector to deliver:

- Workforce development and integrated planning
- Leadership and organisational development
- National frameworks
- Workforce research and evaluation

We are proud to have authored the nationally recognised Six Steps Methodology to Integrated Workforce Planning® and have developed numerous National Occupational Standards and apprenticeship standards that shape the future of healthcare careers.

Email: info@skillsforhealth.org.uk
Website: www.skillsforhealth.org.uk
X Handle: @skillsforhealth



Stryker Stand 31

Voice and messaging are central to Stryker's Clinical Communication and Workflow platform, enabling care teams to communicate seamlessly in near-real-time through wearable lightweight voice-controlled devices that are dual band wi-fi, as well as through smartphone applications. **Critical alerts** and **priority notifications** can also be delivered wirelessly, ensuring vital information reaches the right person without delay. Our solution addresses today's healthcare challenges by improving efficiency, reducing communication gaps, enhancing team collaboration, and streamlining workflows to drive better care.

Email: lawrie.hughes@stryker.com
Website: www.stryker.com/gb/en/portfolios/medical-surgical-equipment/clinical-communication-and-workflow.html

System C Stand 18a

System C is a British business providing digital healthcare solutions across the UK, including Maternity and Pharmacy Stock Control across the whole of Wales.

CareFlow EPR, our Electronic Patient Record solution, seamlessly integrates patient data across all care settings. We're at the forefront of EPR technology, with deeply embedded ambient voice technology helping to streamline documentation, reduce admin burden and release more time to care.

Email: www.systemc.com/contact-us
Website: www.systemc.com



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

The Association of the British Pharmaceutical Industry - ABPI

Stand 1

The ABPI exists to make the UK the best place in the world to research, develop and access medicines and vaccines to improve patient care. We represent companies of all sizes which invest in making and discovering medicines and vaccines to enhance and save the lives of millions. In England, Scotland, Wales and Northern Ireland, we work in partnership with governments and the NHS so that patients can get new treatments faster and the NHS can plan how much it spends on medicines. Our members partner with healthcare professionals, academics and patient organisations to find solutions to unmet health needs.

Email: wales@abpi.org.uk

Website: www.abpi.org.uk

Social: [@ABPI_UK](https://twitter.com/ABPI_UK)



Wealth Genius

Stand 34

Wealth Genius is a specialist Financial Planning firm within Quilter Financial planning network who offer advisory services. Our team has developed an in-depth knowledge of the NHS pension system and understands the career paths of hospital doctors, GPs, dentists, and locums.

Email: support@wealthgenius.co.uk

Website: [Financial Planning, Investments & Retirement Plans - WG](#)





Canllaw i gefnogwyr 2024 – fersiwn Gymraeg

Addysg a Gwella Iechyd Cymru Stand 25



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff strategol ar gyfer y gweithlu ar gyfer GIG Cymru. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae gennym gyfraniad unigryw i'w wneud wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gweithlu strategol ac arbenigol, gan wneud Cymru'n lle gwych i hyfforddi a gweithio i'n staff iechyd a gofal a sicrhau bod yr holl broffesiynau a galwedigaethau i'w cael gymaint â phosib o gyfraniad pob proffesiwn a galwedigaeth drwy ein swyddogaethau statudol.

Email: heiw@wales.nhs.uk

Website: [Hafan - AaGIC](#)

Alliance Clinical Services Stand 39



alliance
clinical services

Mae Alliance Clinical Services yn darparu atebion mewnol clinigol o ansawdd uchel ar draws Ysbytai'r GIG a'r HSE. Rydym yn cefnogi ysbytai i leihau rhestrau aros yn effeithlon ac yn ddiogel. Rydym yn partneru ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd i ddarparu gwasanaethau dan arweiniad Ymgynghorwyr ar draws arbenigeddau gan gynnwys Endosgopi, Offthalmoleg, Dermatoleg, Orthopedig, ENT a Diagnosteg (CT, MRI, ac Uwchsain). Mae ein modelau darparu hyblyg yn galluogi ysbytai i wneud y mwyaf o'r capasiti presennol gyda'r nos a phenwythnosau wrth gynnal llywodraethu clinigol llawn a safonau diogelwch cleifion. Mae Alliance Clinical Services yn rhan o Alliance Health Group, un o brif ddarparwyr gofal iechyd y DU ac Iwerddon, sydd wedi ymrwymo i arloesedd, ansawdd a gwerth am arian.

Email: ACSinfo@allhealth.co.uk

Website: www.allianceclinicalservices.co.uk



Altera Digital Health Stand 37



Mae Altera Digital Health yn ddarparwr blaenllaw o systemau Cofnodion Cleifion Electronig (EPR) yn y Deyrnas Unedig. Mae ein system EPR yn hyblyg, integredig, ac yn cyfuno anghenion clinigol, gweinyddol a llif cleifion er mwyn helpu'r GIG i ddarparu gofal mwy diogel a dibynadwy, tra'n cyflymu aeddfedrwydd digidol.

Mae gan dros 45% o dîm Altera Digital Health yn y DU brofiad uniongyrchol o'r GIG — ffigwr sydd nid yn unig yn ystadegyn, ond yn adlewyrchiad o'n aliniad â gwerthoedd, heriau a blaenoriaethau'r GIG. Mae'r dealltwriaeth ddofn hon yn ein galluogi i gynllunio a chyflwyno datrysiadau sy'n taro tant gyda chlinigwyr, gweinyddwyr a chleifion.

Email: infoUK@alterahealth.com
Website: uk.alterahealth.com
X handle: [@AlteraDH_UK](https://twitter.com/AlteraDH_UK)

Arthritis UK Cymru Stand 13



Arthritis UK Cymru yw'r elusen flaenllaw ar gyfer arthritis, gan newid bywydau trwy ymchwil, ymgyrchu a chymorth.

Mae dros 10 miliwn o oedolion, pobl ifanc a phlant yn y DU yn byw gydag arthritis. Gall effaith arthritis fod yn enfawr, gan effeithio ar y gallu i weithio, gofalu am deulu, symud yn rhydd o boen a byw'n annibynnol. Ac eto, ar gyfer cyflwr sy'n effeithio ar gynifer, nid yw'n cael ei ddeall yn dda ac nid oes digon yn cael ei wneud. Dyna pam rydym yn buddsoddi mewn ymchwil i driniaethau gwell sy'n newid bywydau, rydym yn cefnogi pobl trwy heriau dyddiol bywyd gydag arthritis, ac yn ymgyrchu ar y materion sydd bwysicaf i bobl sy'n byw gydag ef.

Email: K.Ryan@arthritis-uk.org / M.Cowern@arthritis-uk.org
Website: www.arthritis-uk.org
X handle: [@CymruArthritis](https://twitter.com/CymruArthritis)



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Awdurdod safonau proffesiynol ar gyfer
iechyd a Gofal Cymdeithasol
Stand 11



Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yw corff goruchwyllo'r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Email: engagement@professionalstandards.org.uk
Website: <https://cy.professionalstandards.org.uk/>

BDA – The Association of UK Dietitians -
Bwrdd Cymru
Stand 16



Llais proffesiynol dietegwyr ledled y DU yw'r BDA. Mae'r BDA wedi sefydlu byrddau gwlad ym mhob un o'r pedair gwlad i sicrhau perthnasedd ac effaith leol. Maent yn ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth, cyrff proffesiynol, a rhanddeiliaid allweddol eraill i gryfhau a chwyddo llais y proffesiwn dieteteg.

Email: publicaffairs@bda.uk.com
Website: www.bda.uk.com/news-campaigns/campaigns/manifesto.html
X handle: @BDA_Dietitians

Blake Morgan LLP

Mae Blake Morgan yn gwmni cyfreithiol gwasanaeth llawn gyda gwreiddiau dwfn yng Nghymru ac ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn falch o weithio gyda'r GIG yng Nghymru, llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n hanfodol i iechyd a lles y genedl. Mae ein timau cyfreithiol arbenigol yn cynghori ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gydag arbenigedd mewn cyfraith, polisi a chaffael cyhoeddus Cymru, rydym yn cefnogi cleientiaid ar brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol, gan helpu i lunio a darparu gwasanaethau effeithiol a chydymffurfiol ledled tirwedd iechyd a gofal cymdeithasol.



Email: Gemma.barnett@blakemorgan.co.uk
Website: www.blakemorgan.co.uk



BMJ Group Stand 28



Mae BMJ Group yn ddarparwr gwybodaeth gofal iechyd byd-eang gyda gweledigaeth ar gyfer byd iachach. Rydym yn hyrwyddo gwell tystiolaeth wyddonol ac yn helpu creu gwell penderfyniadau clinigol a systemau iechyd trwy dri maes busnes:

1. Cyhoeddiadau a Digwyddiadau: Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer iechyd a chysylltu cymunedau trwy gyhoeddiadau ymchwil effeithiol, offer data a chyflwyno digwyddiadau.
2. Gyrfaoedd a Dysgu: Grymuso gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled y byd ym mhob cam gyrfa gyda pharatoi ar gyfer arholiadau, modiwlau dysgu rhyngweithiol, a byrddau swyddi.
3. Iechyd digidol: Gwella arbenigedd meddygol a gwneud penderfyniadau clinigol trwy arloesi esblygol cynnwys a llwyfannau seiliedig ar dystiolaeth yn seiliedig ar yr ymchwil a'r canllawiau diweddaraf.

Email: aboukabache@bmj.com
Website: bmjgroup.com
X handle: [@bmj_company](https://twitter.com/bmj_company)

Browne Jacobson LLP Stand 24



Ni yw'r cwmni cyfreithiol sy'n gweithio i wneud gwahaniaeth ar draws busnes a chymdeithas. Rydym yn hyrwyddo tegwch, yn symleiddio cymhlethdod ac yn creu cysylltiadau rhwng cleientiaid i ddod o hyd i atebion creadigol i wella canlyniadau i bob person, cymuned a busnes rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gwmni cyfreithiol 50 uchaf, yn darparu cyngor cyfreithiol ymarferol ar draws amrywiaeth o sectorau gan gynnwys yswiriant, gwasanaethau ariannol, addysg, gofal iechyd, adeiladwaith ac eiddo tiriog, sector cyhoeddus, ynni a seilwaith, gweithgynhyrchu a diwydiannol, adwerthu a defnyddwyr, a thechnoleg.

Gyda mwy na 1,000 o bobl mewn swyddfeydd ar draws Llundain, Dulyn, Caerdydd, Nottingham, Manceinion, Birmingham ac Exeter.

Email: claire.weldon@brownejacobson.com
Website: www.brownejacobson.com/services/health-law
X Handle: [@brownejacobson](https://twitter.com/brownejacobson)



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Canolfan Ragoriath SBRI Stand 42



Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cysylltu'r GIG, awdurdodau lleol a diwydiant i ddatrys heriau iechyd a gofal cymdeithasol. Trwy Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI), mae'r Ganolfan yn cefnogi arloeswyr i ddatblygu, profi ac ehangu atebion sy'n gwella gwasanaethau, canlyniadau ac ansawdd bywyd i bobl Cymru. O offer iechyd digidol i brosiectau economi gylchol, mae'r Ganolfan yn helpu i droi syniadau da'n effaith ymarferol – gan yrru twf economaidd, cynaliadwyedd a lles trwy arloesi.

Email: sbri.coe@wales.nhs.uk
Website: www.sbriwales.co.uk
X Handle: @SBRICOE

Care and Repair Cymru Stand 4



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

Mae Care & Repair yn gwella cartrefi i newid bywydau. Rydym yn elusen Gymreig sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a chyfleus drwy waith trwsio, addasu a chynnal a chadw cartrefi.

Cefnogwn tua 50,000 o aelwydydd ledled Cymru bob blwyddyn. Mae ein gwaith addasu cartrefi yn golygu 17% yn llai o dderbyniadau ysbyty i bobl hŷn oherwydd anafiadau drwy syrthio gan arbed tua 35,000 o ddyddiau gwely i GIG Cymru bob blwyddyn.

Mae ein gwasanaeth 'Ysbyty i Gartref Iachach' yn gweithio gyda staff ysbyty i ddynodi cleifion gyda phroblemau tai a all oedi rhyddhau o ysbyty a chwblhau'r gwaith addasu sydd ei angen i alluogi pobl i ddychwelyd gartref yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn gostwng arosiadau ysbyty gan 6 diwrnod ar gyfartaledd.

Email: katherine.evans@careandrepair.org.uk
Website: www.careandrepair.org.uk
X Handle: @CRCymru



CareScribe Stand 12



CareScribe

Mae CareScribe yn gwmni technoleg gynorthwyol arobryn ym Mryste. Rydym yn adeiladu meddalwedd sy'n helpu pobl ag anableddau i weithio ac astudio'n annibynnol ac yn fwy effeithiol. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau gynnyrch: Caption.Ed a TalkType.

Meddalwedd capsiwn a chymryd nodiadau yw Caption.Ed sy'n helpu pobl i ddeall yn well a chadw'r symiau enfawr o wybodaeth a deflir atynt. Mae TalkType yn feddalwedd arddweud cyflym iawn sy'n troi lleferydd yn destun.

Mae ein cynnyrch yn cefnogi ystod eang o anableddau a phroffiliau niwrowahanol, gan gynnwys ADHD, Dyslecsia, colli clyw, ac Anhwylder Prosesu Clywedol, tra hefyd yn cefnogi cynhyrchiant trwy leihau llwyth gwybyddol a symleiddio tasgau bob dydd.

Email: james@carescribe.io

Website: <https://carescribe.io/>

X Handle: www.linkedin.com/company/carescribeltd/

CGI Stand 9



- Ymhlith y cwmnïau gwasanaethau TG ac ymgynghori busnes mwyaf yn y byd, gan **ddarparu atebion TG o'r radd flaenaf** i rai o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat mwyaf y DU
- Helpu sefydliadau i integreiddio **teleofal, teleiechyd a telefeddygaeth**
- Cefnogi cyflawni canlyniadau gwell a **chynyddu effeithlonrwydd** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff
- Un o'r **cyflogwyr mwyaf yng Nghymru** gyda dros **1,200** o aelodau, sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau lle mae ein cleientiaid yn byw
- **Datblygu sgiliau lleol:** nodwedd ganolog o'n presenoldeb cynyddol yma
- Rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn **talent ifanc o Gymru**, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes technegol yng Nghymru

Email: enquiry.uk@cgi.com

website: www.cgi.com/uk/en-gb/CGI-in-wales



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi Stand 19

Y corff proffesiynol, addysgol ac undeb llafur ar gyfer 2,500 o ffisiotherapyddion siartredig, myfyrwyr, a gweithwyr cymorth yng Nghymru.

Mae ffisiotherapyddion yn defnyddio dulliau adsefydlu gydag grwpiau poblogaeth eang, ar draws sectorau; ac mewn ysbytai, cymunedau a gweithleoedd. Mae ffisiotherapyddion yn hwyluso ymyrraeth gynnar, yn cefnogi hunanreolaeth ac yn hyrwyddo annibyniaeth, gan helpu i atal afiechyd rhag datblygu'n gyflyrau cronig, gan sicrhau bod pawb yn cael yr hawl i adsefydlu.

Mae ffisiotherapi wedi'i seilio ar sail dystiolaeth gref, arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynoldeb sy'n canolbwyntio ar y person, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau gofal iechyd a darparu mewn ffyrdd cost-effeithiol.

Email: wales@csp.org.uk

Website: www.csp.org.uk



Chartered Society
of Physiotherapy

Cymdeithas Siartredig
Ffisiotherapi

Cyngor Celfyddydau Cymru Stand 14

Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Gan weithio gydag gwahanol bartneriaid, rydym wedi datblygu rhaglen helaeth ar gyfer y Celfyddydau ac iechyd fel y gall rhagor o bobl fwynhau manteision iechyd a lles drwy fod yn greadigol. Rydym yn darparu cymorth ariannol fel y gall bron pob bwrdd iechyd gyflogi Cydlynnydd y Celfyddydau ac iechyd. Buddsoddwn mewn prosiectau newydd drwy Gronfa Loteri y Celfyddydau, Iechyd a Lles

Email: artsandhealth@arts.wales

Website: www.arts.wales

X handle: [@Arts_Wales_](https://twitter.com/Arts_Wales)



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Kooth Digital Health Stand 6

Kooth yw gwasanaeth iechyd meddwl digidol mwyaf gwledydd Prydain. Rydyn ni'n arwain y byd ym maes lles meddwl digidol pobl ifanc, gan gynnig manau diogel i sicrhau iechyd meddwl gwell i bawb. Gydag ugain mlynedd o brofiad yn y GIG, rydyn ni'n cynnig gofal di-enw a phersonol i blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r ymagwedd yn gyfannol: cymuned ddiogel, cynnwys gan gyfoedion a phobl broffesiynol, a mynediad at bron i 200 cwnselydd sydd ag achrediad BACP. Heb restrau aros, trothwyon, na gofynion atgyfeirio, mae Kooth yn cynnig cymorth amserol ac effeithiol ar lefel unigolyn, cymuned a system.



Ewch connect.kooth.com

Email: smohamed@kooth.com
Website: <https://connect.kooth.com>
X Handle: [@kooth_plc](https://twitter.com/kooth_plc)

HPMA Stand 27

Yn y Gymdeithas Reoli Pobl Gofal Iechyd (Healthcare People Management Association), mae ein gweledigaeth yn glir: Gwella iechyd drwy bobl.



Credwn y dylai pob sefydliad iechyd a gofal ragori yn y ffordd y mae'n rheoli ei bobl oherwydd mae rheolaeth bobl ragorol yn arwain at ganlyniadau gwell, gofal o ansawdd uwch, a chenedl iachach sy'n cael mwy o ofal.

Ein cenhadaeth yw creu'r amodau ar gyfer rheolaeth bobl o'r radd flaenaf drwy rymuso gweithwyr proffesiynol i arwain yn hyderus, ymateb i newid, a chefnogi eu timau i ddarparu gofal rhagorol bob dydd.

Dewch i gwrdd â'r Prif Weithredwr Julie Rogers a'r Rheolwr Busnes Joanne Owens i glywed sut rydym yn adeiladu eich HPMA wedi'i siapio gan aelodau, wedi'i yrru gan effaith

Email: admin@hpm.org.uk
Website: www.hpm.org.uk



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Stand 23



Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, rydym yn hybu'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu arloesiadau gwyddorau bywyd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn rhyngwyneb dynamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllid a defnyddwyr terfynol – timau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen – gan gefnogi llesiant, ac yn y pen draw yn cynhyrchu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru. lshubwales.com

Email: hello@lshubwales.com

Website: [Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru | Life Sciences](http://Hwb.Gwyddorau.Bywyd.Cymru|Life.Sciences)

Medtronic Stand 15

Medtronic

Y tu hwnt i gynhyrchion: Medtronic Integrated Health Solutions (IHS)

Rydym yn partneru â rheolwyr ysbytai ac arweinwyr meddygol i drawsnewid llwybrau gofal a gweithrediadau clinigol, gyda nod cyffredin o:

- Gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau
- Cynyddu boddhad cleifion a staff
- Optimeiddio costau
- Hybu perfformiad sefydliadol
- Trosoli trawsnewid digidol
- Hyrwyddo cynaliadwyedd

Rydym yn partneru â dros 250 o ysbytai, gan eu helpu i yrru a chyflymu trawsnewidiadau i wella mynediad at ofal o ansawdd uchel.

Mae ein profiad helaeth, traws-ranbarthol yn darparu atebion profedig ac effeithiol iawn y gellir eu teilwra'n gyflym i anghenion penodol darparwyr i gynhyrchu gwerth nawr - ac ar gyfer y dyfodol.

Email: Jonathan.morgan2@medtronic.com

Website: www.medtronic.com/uk-en/healthcare-professionals/integrated-health-solutions.html



Mind Cymru Stand 22



Ni yw Mind Cymru. Rydym eisiau i bawb yng Nghymru gael gwell iechyd meddwl. Dyna pam rydym yn bodoli.

Mae ein gwybodaeth, gwasanaethau ac ymgyrchoedd cenedlaethol yn gweithio law yn llaw ag 15 grŵp Mind lleol yn ogystal â siopau manwerthu.

Gyda'n gilydd, helpwn filoedd o bobl i gael y gefnogaeth orau posibl ar gyfer eu hiechyd meddwl. Awn i'r afael â rhwystrau i gefnogi pobl a lleihau stigma a theimlo'n ynysig. Rydym yn newid polisiau a systemau i gefnogi iechyd meddwl pobl am genedlaethau.

Mae gennym y sgiliau, y profiad a'r arbenigedd i helpu pob un ohonom sydd angen cymorth.

Email: supporterrelations@mind.org.uk

Website: www.mind.org.uk/about-us/mind-cymru-mind-in-wales/

NWSSP Legal & Risk Services Stand 30



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Shared Services
Partnership
Legal and Risk Services



Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn dîm o gyfreithwyr mewnol sy'n rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau gan gynnwys Anafiadau Personol ac Erlyniadau, Masnachol, Eiddo, Esgeuluster Clinigol, Cwestau, Ymchwiliadau Cyhoeddus, Indemnïad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, y Llys Gwarchod a Chyfraith Cyflogaeth. Mae gan y Tîm Cyflogaeth wybodaeth a phrofiad arbenigol o'r GIG a gall eich cefnogi gyda phopeth o anghydfodau mewnol, disgyblaethau cymhleth gan feddygon i hawliadau Tribiwnlys Cyflogaeth. Rydym hefyd yn cefnogi ffrydiau gwaith polisi cenedlaethol ac yn darparu clinigau galw heibio. Yn ddiweddar, rydym wedi lansio gwasanaeth Ymchwilio newydd sy'n darparu ymchwiliadau arbenigol, sy'n ystyriol o drawma, i gefnogi'r angen ledled Cymru. Dewch o hyd i ni yn stondin 30.

Email: Legalandriskemploymentteam@wales.nhs.uk /
legal&riskservices@wales.nhs.uk

Website: Legal & Risk Services - NHS Wales Shared Services Partnership



Partneriaeth Genomeg Cymru Stand 10

Mae technolegau genetig a genomig newydd yn caniatáu i ni ddatblygu dealltwriaeth fanylach o lawer o'r cysylltiad rhwng ein genynnau ac iechyd.



Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cydnabyddiaeth ryngwladol bod potensial gan y technolegau hyn i chwyldroi meddygaeth ac iechyd y cyhoedd.

Mae Partneriaeth Genomeg Cymru yn cydweithio i fanteisio ar botensial genomeg er mwyn gwella iechyd, lles a ffyniant pobl Cymru.

Bydd Partneriaeth Genomeg Cymru, ynghyd â'i , phartneriaid a rhanddeiliaid yn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni ym maes geneteg a genomeg, gan gynorthwyo â darparu meddygaeth fanwl yn GIG Cymru.

Website: <https://genomicspartnership.wales/cy/>

Platfform Stand 43

Nod Platfform yw creu newid cymdeithasol ledled y DU. Mae'n ehangu dealltwriaeth pobl o iechyd meddwl a'u hymwybyddiaeth o drallod, fel bod pawb yn cael ei drin â thosturi, urddas a pharch. Uchelgais Platfform yw byd lle mae angen cymorth iechyd meddwl ar lai o bobl oherwydd bod gan bawb yr amgylchiadau i ffynnu. Mae'r prosiectau'n cynnwys cymorth mewn argyfwng iechyd meddwl, allgymorth tai/digartrefedd, prosiectau cymunedol agored i bawb, llesiant seiliedig ar seicoleg yn y gweithle, a mentrau cymdeithasol. Mae Platfform yn cydweithio â phobl a sefydliadau i ymdopi â heriau, i sefydlogi amgylchiadau pobl, ac i feithrin gobaith.

PLATFFORM

For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

Email: connect@platform.org

Website: <https://platform.org/cy/>



Stryker Stand 31



Mae llais a negeseuon yn ganolog i blatfform Cyfathrebu Clinigol a Llif Gwaith Stryker, gan alluogi timau gofal i gyfathrebu'n ddi-dor bron mewn amser real trwy ddyfeisiau ysgafn gwisgadwy sy'n cael eu rheoli gan lais sy'n wi-fi deuol band, yn ogystal â thrwy gymwysiadau ffôn clyfar. Gellir cyflwyno rhybuddion hanfodol a hysbysiadau blaenoriaeth yn ddi-wifr hefyd, gan sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cyrraedd y person cywir heb oedi. Mae ein datrysiad yn mynd i'r afael â heriau gofal iechyd heddiw trwy wella effeithlonrwydd, lleihau bylchau cyfathrebu, gwella cydweithio tîm, a symleiddio llifau gwaith i yrru gofal gwell.

Email: lawrie.hughes@stryker.com

Website: www.stryker.com/gb/en/portfolios/medical-surgical-equipment/clinical-communication-and-workflow.html

System C Stand 18a



Mae System C yn fusnes Prydeinig sy'n darparu atebion gofal iechyd digidol ledled y DU, gan gynnwys Mamolaeth a'n datrysiad Rheoli Stoc Fferyllfeydd ledled Cymru. Mae CareFlow EPR, ein datrysiad Cofnod Cleifion Electronig, yn integreiddio data cleifion yn ddi-dor ar draws pob lleoliad gofal. Rydym ar flaen y gad o ran technoleg EPR, gyda thechnoleg AI wedi'i hymgorffori'n ddwfn yn helpu i symleiddio dogfennaeth, lleihau baich gweinyddol a rhyddhau mwy o amser i ofalu.

Email: www.systemc.com/contact-us

Website: www.systemc.com



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Stand 21

Sefydliad rhwydweithiol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac mae'n cynnwys ystod eang o bartneriaid ar draws y GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil, y trydydd sector ac eraill.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag asiantaethau eraill y llywodraeth ac arianwyr ymchwil (yng Nghymru ac hefyd ar draws y DU), partneriaid maes diwydiant; cleifion; defnyddwyr gwasanaeth; rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo ymchwil ar gyfer heintiau, triniaethau, gwasanaethau a chanlyniadau a all arwain at ddarganfyddiadau ac arloesedd a hyd yn oed achub bywydau pobl.

Email: ymchwiliachydagofal@wales.nhs.uk
Website: ymchwiliachydagofalcymru.org
X Handle: @YmchwilCymru



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Welsh NHS Confederation
Confederasiwn GIG Cymru

Ynglŷn â Chymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)



Stand 1

Mae'r ABPI yn bodoli i wneud y DU y lle gorau yn y byd i ymchwilio, datblygu a chael mynediad at feddyginiaethau a brechlynnau i wella gofal cleifion. Rydym yn cynrychioli cwmnïau o bob maint sy'n buddsoddi mewn gwneud a darganfod meddyginiaethau a brechlynnau i wella ac achub bywydau miliynau. Yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraethau a'r GIG fel y gall cleifion gael triniaethau newydd yn gyflymach a gall y GIG gynllunio faint y maent yn ei wario ar feddyginiaethau. Mae ein haelodau'n partneru â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, academyddion a sefydliadau cleifion i ddod o hyd i atebion i anghenion iechyd heb eu diwallu.

Email: wales@abpi.org.uk
Website: www.abpi.org.uk
Social: [@ABPI_UK](#)